

Gofalu am Gasgliadau Entomoleg



M. Crepeau, J. Thunberg 2015



Cynnwys y Bennod

1. Cyflwyniad i Gasgliadau Entomoleg
2. Problemau'n ymwneud â Chasgliadau
 - 2.1 Plâu
 - 2.2 Deunyddiau Mowntio
 - I. Ferdigris a Rhwd
 - II. Glud
 - III. Sleidiau
 - 2.3 Cynwysyddion
 - I. Asidau
 - II. Crebachu a Chracio
 - 2.4 Llwydni
 - 2.5 Llwch
 - 2.6 Golau
 - 2.7 Trin Gwrthrychau
3. Arddangos a Storio
 - 3.1 Lleithder Cymharol
 - 3.2 Inswleiddio rhag plâu
 - I. Rheoli Plâu yn Integredig
 - 3.3 Trin Gwrthrychau
 - 3.4 Golau
 - 3.5 Cynnal a Chadw
4. Cadwraeth
 - 4.1 Plâu
 - 4.2 Sleidiau Microsgop
 - 4.3 Casgliadau sych
 - 4.4 Casgliadau gwlyb
 - 4.5 Llwydni
 - 4.6 Ferdigris a Rhwd
5. Iechyd a Diogelwch
6. Cyngor pellach
7. Cyfeiriadau ac Adnoddau
 - I. Atodiadau

1. Cyflwyniad i Gasgliadau Entomoleg

Astudiaeth wyddonol o bryfed yw entomoleg. Mae casgliadau entomoleg yn aml yn cynnwys chwilod, gwyfynod, ieir bach yr haf a phryfed eraill ac mae hefyd yn aml yn cynnwys arachnidau (sef grŵp arall o arthropodau yn hytrach na phryfed). Fel arfer cânt eu storio neu eu harddangos gyda'u dogfennaeth, yn aml mewn blychau pren neu ddroriau mewn cypyrddau, wedi'u pinio neu eu gosod ar sleidiau gwyr. Mae sbesimenau hefyd i'w gweld mewn jariau a chynwysyddion wedi'u llenwi â hylif cadwraeth megis alcohol neu wedi'u storio mewn amlenni papur. Yn aml, casgliadau entomolegol yw'r rhan helaeth o gasgliadau amgueddfeydd Gwyddorau Naturiol, gyda channoedd o filoedd o wrthrychau weithiau, neu filiynau hyd yn oed.

2. Problemau'n ymwneud â chasgliadau

2.1 Plâu

Mae casgliadau entomolegol yn ffynhonnell atyniadol o fwyd i blâu megis chwilod carpedi (*Anthrenus verbasci*), sy'n gallu anrheithio casgliad o sbesimenau mewn wythnosau'n unig. Ymhlith yr arwyddion fod pla ar waith, mae lleugylchau o lwch lindys (baw pryfed), a all edrych fel llwch neu weddillion eraill yn agos at sbesimenau yr effeithir arnynt, crwyn larfâu wedi'u bwrw, a phryfed llawndwf. Yn gyffredinol, mae plâu yn ffynnu mewn amgylchiadau sy'n tueddu i fod yn fudr, yn llaith ac yn dywyll, er y byddant hefyd yn byw mewn mannau glân o gael digon o fwyd a llonydd. Y ffordd fwyaf effeithiol o osgoi pla yw cynnal a chadw da, rheolaeth amgylcheddol effeithiol a chynnal a chadw eiddo.

2.2 Deunyddiau Mowntio

I. Ferdigris a Rhwd

Yn draddodiadol, câi sbesimenau eu mowntio gan ddefnyddio pinnau pres neu ddr, sy'n tueddu i ddirywio mewn amodau amgylcheddol penodol. Gall ferdigris effeithio ar binnau pres, a deillia ei enw o'r cynnyrch cyrydol gwyrdd cwyrdd sy'n ffurfio o amgylch y pwynt cyswllt rhwng y sbesimen a'r pin. Gall pinnau dur hefyd ryngweithio'n negyddol â'r amgylchedd, gan greu cynnyrch cyrydol coch-frown, a elwir hefyd yn rhwd. Fel ferdigris, mae rhwd yn ymledol a gall rwygo'r sbesimen ar y pwynt cyswllt â'r pin. Mae'r cyflwr yn llai arwyddocaol gyda phinnau dur gwrthstaen o ansawdd da.

Ferdigris



Mae ferdigris yn deillio o ganlyniad i adweithiau rhwng gwlybaniaeth atmosfferig (lleithder), copr, a'r cemegau a gynhyrchir gan ddirywiad y sbesimen, neu drwy anweddau ac asidau cyrydol a ryddheir gan gasys pren neu ludiau. Mae ferdigris yn las-wyrdd ac yn aml yn edrych yn edefynnog neu'n flewog. Mae ferdigris yn achosi aflwiad a gall hefyd achosi difrod ffisegol o gwmpas y pin.

II. Glud

Gall dirywiad gludiau a ddefnyddir i atgyweirio atodion toredig neu i fowntio sbesimenau ryddhau anweddau ac asidau anweddol a all ddifrodi'r sbesimenau ac unrhyw ddeunyddiau metelig sy'n cyffwrdd â'r sbesimen neu'r cas.

III. Sleidiau

Gall sbesimenau wedi'u mowntio gael eu difrodi'n ffisegol neu eu cuddio gan ddeunyddiau mowntio byrdymor a all ddirywio'n gyflym yn cracio, yn crisialu neu'n tywyllu.

2.3 Cynwysyddion

I. Asidau

Os ceir lefelau uchel o leithder, rhyddheir anwedd organig ac asidau anweddol o flychau pren. Gall yr asidau a'r anweddau hyn gyrydu deunyddiau metelig gerllaw.

II. Crebachu a Chracio.

Gall amrywiad yn y lleithder cymharol achosi ehangu a chrebachu microsgopig mewn casys storio wedi'u gwneud o bren. Gall effeithiau cronnus straen o'r fath gynyddu dros gyfnod o amser, gan dorri seliau aerglos ac achosi afluniad o amgylch y cysylltau neu gracio ym mhaneli'r cas. Mae craciau ac afluniadau i bob pwrpas yn negyddu'r rhwystr amddiffynnol y mae'r blwch storio yn ei ddarparu, gan adael y sbesimenau yn agored i niwed plâu ac amrywiadau amgylcheddol.

2.4 Llwydni

Mae twf llwydni yn rhyddhau cemegau cawstig (ensymau) sy'n peri i ddeunyddiau organig ymddatod. Gall ddinistrio sbesimenau yn gyfan gwbl, eu cuddio'n ffisegol a chyfyngu ar eu gwerth fel adnoddau ymchwil. Yn ogystal, gall llwydni ddynodi problemau yn y dull o reoli lleithder cymharol yn lleol a'r cymhlethdodau posibl, plâu, asidau ac yn y blaen a all ddeillio o ganlyniad i hynny.

2.5 Lluch

Mae lluch yn denu gwlybaniaeth a all arwain at broblemau gyda phlâu, ferdigris, asidau ac yn y blaen. Os ceir lefelau uchel o leithder cymharol, gall lluch heb ei symud ffurfio calediadau solet sy'n anodd eu dileu, yn enwedig oddi ar sbesimenau neu labeli bregus. Mae lluch hefyd yn annymunol yn esthetaidd a bydd yn gwneud i'r casgliad edrych fel pe bai'n cael ei esgeuluso.

2.6 Niwed Golau

Gall golau, yn enwedig golau uwchfioled achosi i sbesimenau bylu. Mae'r ynni a gynhyrchir gan olau yn achosi i sbesimenau ddirywio'n gyflym drwy broses o'r enw "ffotoddiraddiad", lle mae adweithiau cemegol yn cael eu cychwyn neu eu cyflymu gan olau. Nid oes modd dadwneud difrod sy'n deillio o olau.

2.7 Camdraffod Gwrthrychau

Mae casgliadau entomolegol yn fregus iawn, a gallant dorri'n hawdd os na chânt

olewau a geir ar groen dynol achosi adweithiau cemegol sy'n gallu peri ymddatod neu ddifrodi'r sbesimen, yn enwedig os yw wedi'i fowntio ar bin metel.

3. Storio ac Arddangos

3.1 Lleithder Cymharol a Thymheredd

Anaml y bydd lleithder cymharol yn effeithio ar sbesimenau entomolegol yn uniongyrchol ond gall effeithio'n fawr ar elfennau eraill o'r casgliad. Yn aml, amrywiadau yn y lleithder cymharol yw'r agwedd fwyaf niweidiol ac sy'n peri fwyaf o ansefydlogrwydd. Yn ddelfrydol dylid cynnal lleithder cymharol sefydlog.

Gall monitro'r lleithder cymharol a'r tymheredd yn y cas arddangos ddatgelu a yw'r amgylchedd arddangos yn briodol.

Nid oes modd gwahanu lleithder cymharol yr aer oddi wrth y tymheredd. Bydd cynyddu tymheredd dan do o gymharu â'r tymheredd awyr agored yn lleihau lefelau lleithder cymharol yn ardal y casgliadau. Ar ben hynny, mae newidiadau sydyn yn y tymheredd yn arwain at amrywiadau cyflym yn y lleithder cymharol sy'n cael eu hystyried yn niweidiol. Dylid cadw'r lleithder cymharol mor sefydlog ag y bo modd.

Gellir rheoli lleithder cymharol drwy ddefnyddio lleithyddion a dadleithyddion domestig, neu drwy systemau awyru neu aerdymheru yr adeilad. Mae ffraniau trydanol yn ateb nad yw'n costio llawer ar gyfer cyfyngu ar lwydni yn ardal y casgliad, ond eu hanfantaes yw nad oes modd eu rheoli'n dda.

Tabl.1 Amrediadau allweddol lleithder cymharol

Lleithder Cymharol	Effaith	Deunyddiau mewn peryc
<40%	Ferdigris, Rhwd	Pinnau mowntio, cydrannau metel
45-55%	Amgylchedd targed	
65-70%	Twf llwydni	Deunyddiau organig

Monitro



Mae maglau pryfed gludiog yn adnoddau effeithiol ar gyfer monitro gweithgarwch plâu. Dylid casglu'r maglau ac archwilio eu cynnwys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (byddai archwiliad bedair gwaith y flwyddyn yn ddelfrydol), ond yn enwedig yn ystod mis Mawrth/mis Ebrill pan fo pryfed llawndwf ar eu mwyaf gweithredol yn Ynysoedd Prydain. Dylid gosod y maglau yn ofalus er mwyn gorgyffwrdd â llwybrau teithio mwyaf tebygol plâu. Yn gyffredinol, bydd y rhain ar hyd waliau a thu ôl i gypyrddau. Dylid gosod y maglau pryfed yn dynn yn erbyn wal ar ongl o 90° er mwyn iddynt fod mor effeithiol ag y bo modd.

3.2 Diogelwch rhag plâu

Ni ellir sicrhau bod unrhyw adeilad yn gwbl ddiogel rhag plâu; fodd bynnag, gellir rhoi camau ar waith i liniaru eu presenoldeb a'u heffaith cymaint ag y bo modd. Yr amddiffyniad cyntaf a mwyaf syml yw darparu rhwystr gofodol rhwng sbesimenau a'r amgylchedd y tu allan. Fel arfer, y cynhwysydd storio neu'r drôr yw'r rhwystr hwn. Mae'n bwysig monitro seliau'r compartmentau hyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal i fod yn effeithiol ac na cheir bylchau o ganlyniad i grebachu ac yn y blaen. Mae'n bosibl y bydd angen monitro blychau a droriau hyn a llai aerglos yn fwy rheolaidd.

1. Rheoli Plâu yn Integredig (IPM)

Rheoli Plâu yn Integredig yw'r strategaeth orau ar gyfer ymdrin yn rhagatoliol ag anghenion cadwraeth a all ddeillio o blâu. Mae Rheoli Plâu yn Integredig yn gweithio drwy reoli ffactorau amgylcheddol sy'n gwneud amgylchedd yn atyniadol i blâu, megis lefelau lleithder uchel, cynnal a chadw gwael, ffynonellau (er enghraifft, nythod adar a chnoflod) a bwyd. Edrychwch i weld a oes gan eich sefydliad gynllun integredig ar gyfer rheoli plâu a pha ddyletswyddau sydd eu hangen a sut y cânt eu dirprwyo. Os nad oes cynllun integredig ar waith ar gyfer rheoli plâu, anogwch eich amgueddfa i greu un. Gall Uwch Gadwraethydd Ataliol yr Amgueddfa Genedlaethol eich cynorthwyo i wneud hyn.

3.3 Trin Gwrthrychau

Yn ddelfrydol, dylai'r casgliad gael ei drin cyn lleied ag y bo modd oherwydd ei freuder. Gellir cyflawni hyn os yw'r casgliad yn cael ei storio'n briodol.

Ni ddylid trin sbesimenau'n uniongyrchol oni bai bod rhaid. Gweler yr adran ar *lechyd a Diogelwch* cyn trin gwrthrych. Dylid trin sbesimenau unigol wrth ddesg bob amser. Os oes angen symud y casgliad dros unrhyw bellter sylweddol, dylid mowntio'r sbesimenau ar system gynnal y gellir ei symud ac sydd wedi'i selio, h.y. â chaead.

3.4 Golau

Nid oes modd dadwneud difrod golau, felly mae'n bwysig rhoi camau priodol ar waith i osgoi ei effeithiau niweidiol. Mewn storfa, y ffordd orau o gyflawni hyn yw cadw'r casgliad yn y tywyllwch cymaint ag y bo modd. Gall mesurau syml fel rhoi darn o gardfwrdd dros y ddyfais storio i atal y golau fod yn ddigon.

Fodd bynnag, mae angen golau at ddibenion arddangos. Gall yr ynni niweidiol a grëir gan olau ddeillio o olau dydd a golau artiffisial fel ei gilydd a dylid eu lliniaru cymaint ag y bo modd. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd.

Tabl.2 Lliniaru Golau

Ffynhonnell olau	Cam gweithredu
Golau dydd o ffenestr	<ul style="list-style-type: none">Gosod hidlydd uwchfioled ar ffenestriDefnyddio llenni neu fleinds
Ffynhonnell olau artiffisial	<ul style="list-style-type: none">Cau allan ffynonellau golau sy'n rhyddhau golau uwchfioledMowntio ffynonellau golau sy'n rhyddhau gwres y tu allan i'r cas arddangos Osgoi bylbiau watiu uchelRheoli amser goleuo drwy ddefnyddio amserydd

3.5 Cynnal a chadw

Trefniadau cynnal a chadw da yw'r ffordd fwyaf syml a mwyaf effeithiol o leihau problemau sy'n gysylltiedig â llwch a phlâu. Ar wahân i'r ffaith y bydd y casgliad yn lân ac yn ddi-lwch, mae trefniadau cynnal a chadw da yn gyfle gwych i archwilio'r casgliad am unrhyw arwydd o niwed.

4. Cadwraeth

4.1 Plâu

Os ceir arwyddion o bla, penderfynwch a yw'r pla yn dal yn weithredol (gweler yr arwyddion a nodwyd yn adran 2.1). Nid yw gweld pryfed llawndwf o reidrwydd yn awgrymu bod y casgliad yn dioddef o ganlyniad i bla. Ar ôl cadarnhau bod pla yn bresennol, mae yna sawl ffordd o gael gwared arno.

Rheolau Cynnal a Chadw Da

- Hwffro
- Dwstio/Tynnu llwch
- Gwahardd bwyta ac yfed
- Cynnal cylchrediad aer da
- Cael gwared ar nythod adar a chnofilod
- Cael gwared ar bryfed a chorynnod marw

NODER: *Cofiwch fod yn ofalus iawn os oes angen gweithio yn agos at y sbesimenau hyn gan eu bod yn fregus iawn.*

Tabl.3 Triniaethau Pla Mewnol

Dull	Cam gweithredu	Effaith
Rhewi	Gosodir sbesimenau a heintwyd â phla mewn bagiau polyester a selir â gwres, neu mewn bagiau polythen a selir â thâp parseli. Yna, gellir gosod sbesimenau a seliwyd mewn rhewgell. Rhaid i'r rhewgell allu cyrraedd o leiaf -18°C am gyfnod o 2 wythnos neu -30°C ar gyfer triniaethau 3 diwrnod.	Cael gwared ar y pla drwy ddefnyddio tymereddau eithafol.
Anocsia	Crëir microamgylcheddau anocsig drwy selio'r sbesimen â phla mewn rhwystr aerglos ac ychwanegu sborionwr ocsigen a byffer lleithder cymharol.	Cael gwared ar y pla drwy ei amddifadu o ocsigen.

Bydd gofyn cael cyngor cadwraethydd a chontractwr allanol o bosibl ar gyfer plâu ar raddfa fawr. Cyn bwrw ymlaen ag unrhyw driniaeth ar gyfer pla gweler adrannau 5.1 a 5.2 ar gyfer rhagofalon diogelwch.

4.2 Sleidiau Microsgopig

Rhaid archwilio sbesimenau wedi'u mowntio yn flynyddol am arwyddion o ddirywiad deunyddiau mowntio. Gellir codi baw ar yr wyneb drwy swabio'n ofalus â ffyn gwllân cotwm wedi'u gwlychu â dŵr wedi'i ddatoneiddio; fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael â dirywiad amlwg yn y deunydd mowntio drwy ofyn am gymorth gan gadwraethydd.

4.3 Casgliadau Sych

Dylid prynu blychau storio ac arddangos, droriau a chasys gan gyflenwyr arbenigol. Dylai caeadau gau'n dynn. Mae'n fanteisiol hefyd os yw cynwysyddion wedi'u leinio â deunyddiau di-asid a gwrth-asid.

4.4 Casgliadau Gwlyb

Dylid archwilio sbesimenau a gedwir mewn hylif yn flynyddol am ddirywiad seliau, lefelau hylif ac arwyddion o aflwiad neu halogiad. Dylid ailosod labeli bregus neu rydd pan fyddant yn dechrau pylu, gan ddefnyddio inciau pigment wrth ailysgrifennu labeli ar gyfer storio yn y cynwysyddion. Hefyd, gellir defnyddio amlenni polyester i ymestyn oes y label. Mae newid yr hylif yn waith ar gyfer cadwraethydd arbenigol.

4.5 Llwydni

Mae llwydni yn arwydd o leithder uchel a gwlybanaeth yn yr amgylchedd. Archwiliwch am ollyngiadau ac offer toredig er mwyn dod o hyd i ffynhonnell y lleithder. Gall dadleithyddion helpu i gywiro anghydbwysedd lleithder cymharol. Mewn achos o lwydni helaeth, cysylltwch â chadwraethydd.

4.6 Ferdigris a Rhwd

Yn aml, mae modd brwsio ferdigris i ffwrdd a lleihau ymlediad niweidiol y cynnyrch crydol. Gall cyfansoddion copr fod yn wenwynig, dylid golchi dwylo'n drylwyr ar ôl ei gyffwrdd. Mae'n anos cael gwared ar rwd. Mae modd cael gwared ar beth rhwd drwy ddefnyddio brwsys caled

ond mae perygl o niweidio'r sbesimen drwy wneud hyn. Peidiwch â symud y pin os nad oes modd cael gwared ar y rhwd. Cysylltwch â chadwraethydd arbenigol. Os yw sbesimen wedi torri, peidiwch â cheisio ei roi'n ôl at ei gilydd oni bai eich bod yn hollol sicr pa lud i'w ddefnyddio ac union leoliad y rhannau o'r sbesimen sydd wedi torri'n rhydd. Awgrymir yn gryf y dylech gadw pob un o'r darnau a chysylltu â chadwraethydd/curadur entomoleg.

Y ffordd hawsaf o osgoi neu atal ymlediad cynnyrch crydol ar binnau mowntio yw rheoli'r amgylchedd drwy ostwng lefelau'r lleithder cymharol (gweler *Storio ac Arddangos*). Gallai hyn atal difrod pellach ond os yw'n parhau'n aneffeithiol, cysylltwch â chadwraethydd.

5. Iechyd a Diogelwch

5.1 Pryfleiddiaid

Gall pryfleiddiaid fod yn wenwynig i bobl a chânt eu rheoli'n llym gan ddeddfau. Ni ddylid eu defnyddio ac eithrio pan fetha popeth arall a dim ond drwy ddilyn y cyngor a'r gweithdrefnau llym. Cysylltwch â chadwraethydd proffesiynol cyn defnyddio unrhyw bryfleiddiaid cemegol.

5.2 Triniaethau Blaenorol rhag Plâu

Yn y gorffennol, yn enwedig mewn casgliadau hŷn, câi llawer o sbesimenau eu trin drwy ddefnyddio pryfleiddiaid a chemegau sydd bellach yn cael eu hystyried yn wenwynig ac yn creu pryder iechyd a diogelwch i unrhyw un sy'n trin y casgliad. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn cyffwrdd y sbesimenau fwy na sydd angen ac edrychwch am labeli a dogfennau eraill a allai ddatgelu triniaethau blaenorol rhag plâu. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â chadwraethydd a all ddadansoddi unrhyw olion sy'n parhau.

5.3 Llwydni

Mae rhai sborau llwydni yn wenwynig i bobl a gallant greu perygl difrifol i iechyd a diogelwch.

6. Gwybodaeth Ychwanegol

Lluniwyd y daflen wybodaeth hon gan fyfyrwyr [Cadwraeth Prifysgol Caerdydd](#) yn rhan o brosiect 'Cysylltu Casgliadau Gwyddorau Naturiol yng Nghymru' Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, a ariennir gan [Gronfa Gasgliadau Esmee Fairbairn](#) ac a gefnogir gan [Is-adran Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Llywodraeth Cymru](#) ac [Amgueddfa Cymru](#). Gallwch gael gwybodaeth am y prosiect ar wefan [Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru](#).

Mae'r daflen hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r pwnc. Os ydych angen cyngor manwl ar ofal casgliadau amgueddfeydd, gofynnwch i'ch cadwraethydd rhanbarthol neu [Gofrestr Cadwraeth](#) y Sefydliad Cadwraeth.

7. Cyfeiriadau a Chyhoeddiadau

Cassar M. (1995) *Environmental Management. Guidelines for Museums and Galleries*. Museums & Galleries Commission. Routledge.

Child, R. *Integrated Pest Management in the Real World* [Ar-lein]. I'w weld yn: <http://www.historyonics.com/> [Fel ar: 10 Ionawr, 2014].

Garner B. Giusti A. Kerley M. (2011) Conservation of Specimens Affected by Verdigris. NatSCA News Rhifyn 21

Florian, M.L. 1994. Mold and its Life Cycles. Yn: Motylewski, K. *Non-Toxic Fumigation & Alternative Control Techniques for Preserving Cultural/Historic Properties & Collections, Boston, 22-23 Hydref, 1994*. [Nodiadau Cynhadledd] I'w weld yn: <http://www.cool.conservation-us.org/byauth/motylewski/pestnote.html>

NatSCA, ICON (2013). Care and conservation of zoological specimens. Taflen gan y Casgliadau Gwyddorau Naturiol a'r Sefydliad Cadwraeth.

National Park Service. 2006. Curation of Insect Specimens. *Conserve O Gram* 8/11. Medi 2006.

National Park Service. 2007. Mold: Prevention of Growth in Museum Collections. *Conserve O Gram* 3/4. Awst 2007.

National Park Service, Llawlyfr Amgueddfeydd. Atodiad Q. <http://www.nps.gov/museum/publications/mhi/appendq.pdf>

Guide to pest identification, Birmingham Museums and Art Gallery: <http://www.whatseatingyourcollection.com>

Tabl 4. Cyfarpar a Chyflenwyr

Cam Gweithredu	Cyfarpar angenrheidiol	Gweithgynhyrchwyr
Anocsia	Rhwystrau ocsigen, megis MarvelSeal™, Escal™	Escal™: www.csconserv.co.uk ; www.conservation-by-design.co.uk
	Sborionwyr ocsigen, megis Ageless™	MarvelSeal™: www.preservationequipment.com
		Ageless™: www.conservationssupportsystems.com
Rhewi	Rhewgell sy'n gallu cyrraedd -18°C neu'n is.	Gellir prynu deunydd pacio ar gyfer gwaith cadwraeth gan: www.conservation-by-design.co.uk ; www.preservationequipment.com ; www.conservation-resources.co.uk
	Dalennau neu fagiâu Polyethylen, Polyester.	
	Seliwr gwres.	
Pryfleiddiaid	<i>Gweler Iechyd a Diogelwch.</i>	
Trin	Menig cotwm, menig nitril.	Menig (e.e.): www.preservationequipment.com